Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

**Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

# Asesiad o Effaith Polisi ar yr Iaith Gymraeg

Mae'r Asesiad o Effaith Polisi hwn wedi'i lunio i helpu'r Comisiwn i ystyried y cysylltiad rhwng polisïau a'r iaith Gymraeg. Gellir ei ddefnyddio hefyd i wirio bod polisïau *presennol* yn rhoi ystyriaeth ddyledus i'r iaith. Mae hyn yn hanfodol o ystyried ymrwymiad CDFFC i'r iaith Gymraeg.

Gall defnyddio'r ddogfen hon helpu i sicrhau bod y Comisiwn yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith Gymraeg sy'n berthnasol.

Dylai'r Asesiad o Effaith Polisi gyd-fynd â chyflwyniadau i uwch reolwyr / Comisiynwyr.

Efallai y bydd amgylchiadau lle nad oes unrhyw gysylltiad arwyddocaol rhwng y polisi sy'n cael ei ddatblygu a'r iaith Gymraeg. Yn yr achosion hyn, dylid nodi'r diffyg cysylltiad yn Atodiad 2 (at ddibenion archwilio).

Dylid cynnal trafodaethau ynghylch y cysylltiadau rhwng y polisi a'r iaith Gymraeg, a dylid gwahodd sylwadau ynghylch y mater hwn wrth ddechrau datblygu unrhyw bolisi.

## Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

## Asesiad o Effaith Polisi ar yr Iaith Gymraeg

**Enw'r Prosiect: Adolygiad Etholiadol Sir Gaerfyrddin 2025 -26**

**Swyddog Cyfrifol: Cher Cooke**

**Llofnod: C Cooke**

**Dyddiad yr Asesiad: 26/01/2026**

Wrth i chi ateb pob un o'r cwestiynau isod, cyfeiriwch at y nodiadau yn **Atodiad 1** am gyfarwyddyd.

Wrth i chi lenwi'r ffurflen hon, dylech ystyried Safonau Iaith Gymraeg CDFFC (mae'r ddogfen hon i'w gweld ar wefan CDFFC yn [Safonau Iaith Gymraeg | CDFfC (llyw.cymru)]

Os, ar ôl ystyried yr holl gwestiynau yn yr asesiad hwn, nad ydych yn teimlo bod unrhyw gysylltiad arwyddocaol rhwng y polisi sy'n cael ei ddatblygu a'r iaith Gymraeg, llenwch y datganiad yn **Atodiad 2**.

**Cwestiwn 1**
*A oes angen cymorth arbenigol arnoch i ystyried y cysylltiad rhwng y polisi hwn a'r iaith Gymraeg?*

| | |
|---|---|
| **Oes:** | Disgrifiwch y camau y byddwch yn eu cymryd i gydosod yr arbenigedd sydd ei angen arnoch. |
| **Nac oes:** | Ewch i gwestiwn 2. |

**Nac oes**

**Cwestiwn 2**
*A ellir gwella'r polisi i gynnwys elfennau a fydd yn helpu i hyrwyddo, cefnogi a datblygu'r Gymraeg?*

| | |
|---|---|
| **Gellir:** | Esboniwch sut caiff y polisi ei wella i gynnwys yr elfennau hyn. |
| **Na ellir:** | Esboniwch pam ddim. |

**Na ellir**

Mae'r Comisiwn wedi ystyried yr iaith Gymraeg, lle bo hynny'n briodol, yn ystod yr arolwg ac mae'r adroddiad a'r argymhellion yn cyfeirio at yr ystyriaethau hynny. Mae'r Comisiwn hefyd yn ystyried enwau priodol ar gyfer y wardiau etholiadol ble mae newidiadau i ffiniau wedi cymryd le fel rhan o'r arolwg. Ymgynghorir â Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch enwau'r hyn, a chaiff y safbwyntiau hyn eu hystyried wrth wneud yr argymhellion terfynol

**Cwestiwn 3**
*A oes perygl i'r polisi gael effaith negyddol ar y Gymraeg?*

| | |
|---|---|
| **Oes:** | Esboniwch yn llawn pam rydych yn teimlo y gellir cyfiawnhau'r polisi, o ystyried yr effaith negyddol y gallai ei chael ar y Gymraeg. Hefyd, dylech esbonio'n fanwl sut rydych yn bwriadu lleihau'r effaith negyddol. |
| **Nac oes:** | Esboniwch yn llawn pam nad ydych yn teimlo y bydd yn cael effaith negyddol. |

**Nac oes**

Nid yw'r Comisiwn wedi derbyn unrhyw dystiolaeth yn ystod yr arolwg i ddangos y bydd effaith negyddol ar y Gymraeg o ganlyniad i gynigion y Comisiwn.

**Cwestiwn 4**
*A allai'r polisi gynnwys safonau i'w bodloni a/neu dargedau i helpu i fesur llwyddiant o ran hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda rhanddeiliaid?*

| | |
|---|---|
| **Gallai:** | Rhestrwch y safonau a/neu'r targedau rydych yn bwriadu eu cyflawni/mesur. |
| **Na allai:** | Esboniwch pam yn llawn. |

**Na allai**

Rhaid cynnal arolygon a chynigion y Comisiwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Mae'r ystyriaethau ar gyfer arolwg etholiadol wedi'u pennu yn Adran 26 y Ddeddf honno. Nid oes unrhyw ofyniad ar y Comisiwn i hyrwyddo'r iaith Gymraeg wrth gynnal arolwg.

**Cwestiwn 5**
*A allai'r polisi arwain at fwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle?*

| | |
|---|---|
| **Gallai:** | Disgrifiwch yn llawn sut caiff hyn ei hwyluso, ei annog a'i fesur. |
| **Na allai:** | Ewch i gwestiwn 6. |

**Na allai**

Ni fydd y polisi hwn yn effeithio ar drefniadau gweithio yn y Comisiwn.

**Cwestiwn 6**

*A allai'r polisi eich galluogi i osod amodau yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg gan drydydd partïon, ac a ellid monitro'r amodau hyn?*

**Gallai:** Disgrifiwch yn llawn sut caiff hyn ei gyflawni.

**Na allai:** Ewch i gwestiwn 7.

**Na allai**

**Cwestiwn 7**

*A fydd y polisi'n arwain at wneud Gorchymyn?*

**Bydd:** Disgrifiwch yn fanwl sut byddwch yn sicrhau y bydd y Gorchymyn yn hyrwyddo'r iaith ac/neu yn galluogi ei defnyddio yn y maes polisi.

**Na fydd:** Nid oes angen unrhyw gamau pellach.

**Bydd**

Mae Gorchymyn gweithredu a gweithdrefnau a chynnwys Gorchymyn wedi'u pennu yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Nid oes unrhyw ofyniad i hyrwyddo'r Gymraeg mewn Gorchymyn Trefniadau Cymunedol; fodd bynnag, mae'r Comisiwn yn rhoi'r wybodaeth briodol i Lywodraeth Cymru i'w galluogi i wneud Gorchymyn dwyieithog.

**Atodiad 1**

## Asesiad o Effaith Polisi ar yr Iaith Gymraeg

## Nodiadau

Mae materion i'w hystyried wrth gwblhau'r Asesiad o Effaith Polisi yn cynnwys y nodiadau canlynol a:

- Safonau Iaith Gymraeg CDFFC, sydd ar gael ar wefan y Comisiwn; a,
- Dogfen *Iaith Fyw: Iaith Byw* Llywodraeth Cymru, sydd ar gael ar fewnrwyd LIC.

**Cwestiwn 1 (Arbenigedd)**

- A oes unigolion yn y sefydliad neu Lywodraeth Cymru (LIC) a all fod â'r arbenigedd sydd ei angen i helpu i ddatblygu'r polisi?
- A oes unrhyw arbenigwyr allanol y gallech chi eu gwahodd i helpu i ddatblygu'r polisi?
- A oes unrhyw ddarparwyr gwasanaeth sy'n gweithio ym maes y polisi sy'n cael ei ystyried a allai gynghori ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg?
- A ellid trafod materion â grwpiau gwirfoddol cyfrwng Cymraeg (fel Merched y Wawr, Ffermwyr Ifanc, Mentrau Iaith ac ati) neu siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol?
- A allwch ddod o hyd i'r arbenigedd sydd ei angen arnoch yn y sector preifat?

**Cwestiwn 2 (Gwella'r polisi)**

Ystyriwch a allai'r polisi:

- gynyddu darpariaeth gwasanaethau eraill trwy gyfrwng y Gymraeg;
- cynyddu neu wella cyhoeddi/darlledu trwy gyfrwng y Gymraeg; a/neu
- wneud cymunedau Cymraeg eu hiaith yn gynaliadwy (e.e. trwy agor neu gynnal cyfleusterau cymunedol).

**Cwestiwn 3 (Effaith negyddol)**

Ystyriwch a allai'r polisi:

- arwain at ostyngiad yn nifer y staff sy'n medru'r Gymraeg;
- arwain at fwy o anhawster wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg;
- arwain at ostyngiad yn y gwasanaethau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg;
- arwain at leihau cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith;
- arwain at fwy o fewnfudo i gymunedau Cymraeg eu hiaith; ac/neu
- arwain at fwy o siaradwyr Cymraeg yn ymfudo o gymunedau Cymraeg eu hiaith.

**Cwestiwn 4 (Safonau a thargedau)**

Gall safonau ymwneud â:

- nifer/canran y staff sy'n medru'r Gymraeg;
- nifer y cyhoeddiadau a gyhoeddir yn Gymraeg; neu
- nifer/canran y trydydd partïon sy'n gweithredu'n unol â disgwyliadau'r iaith Gymraeg.

Gall targedau ymwneud â:

- gwasanaethau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg;
- nifer/canran yr unigolion sy'n cysylltu â'r Comisiwn trwy gyfrwng y Gymraeg; neu
- defnydd ehangach o'r iaith.

**Cwestiwn 5 (Cymraeg yn y gweithle)**

Gallai'r cwestiwn hwn fod yn ymwneud ag:

- Annog a chynorthwyo staff i ymdrin â chleientiaid trwy gyfrwng y Gymraeg
    - o wyneb yn wyneb
    - o dros y ffôn
    - o trwy ymdrin â gohebiaeth Gymraeg

    - trwy brosesu ffurflenni a gyflwynwyd trwy gyfrwng y Gymraeg;
- Galluogi staff i ymgymryd â hyfforddiant Cymraeg; neu
- Ddarparu meddalwedd i helpu siaradwyr Cymraeg e.e. Cysill neu Cysgeir.

**Cwestiwn 6 (Trydydd partïon)**
Gallai'r cwestiwn hwn fod yn ymwneud â:
- chyflwyno a/neu gryfhau amodau mewn contractau; neu
- godi ymwybyddiaeth o Gynllun Iaith Gymraeg y Comisiwn.

**Cwestiwn 7 (Gwneud Gorchmynion)**
Gallai'r cwestiwn hwn fod yn ymwneud â'r canlynol:
- dylai ffurflenni rhagnodedig gael eu rhagnodi yn Gymraeg a Saesneg; a
- dylai unrhyw ffurf ragnodedig o eiriau fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

**Atodiad 2**

**Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

**Asesiad o Effaith Polisi Newydd ar yr Iaith Gymraeg**

**Enw'r Polisi: Polisi CDFfC Enwi Wardiau Etholiadol, Cymunedau a Wardiau Cymunedol**

**Swyddog Cyfrifol: C Cooke**

Nid oes unrhyw gysylltiad arwyddocaol rhwng y polisi sy'n cael ei ddatblygu a'r iaith Gymraeg. Mae'r rheswm am hyn fel a ganlyn:

**Llofnod: C Cooke**

**Enw: Cher Cooke**

**Dyddiad: 26/01/2026**